

Newyddion da a newyddion drwg


Y mae achosion o Covid-19 yn gostwng yn ein Gefaill Esgobaeth Bukavu, yng Ngweriniaeth Ddemocrataidd Congo, ond y mae Ebola yn codi eto, fel y mae Roger Dirokpa yn adrodd

Y mae Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo (DRC) yn barod wedi gweld gostyngiad yn achosion coronafeirws. Dyma beth ddywedodd llywydd Pwyllgor Amlsectoraidd mewn ymateb i Covid-19 yn DRC, Athro Muyembe, ar Awst 13, 2020.

‘Yr oedd misoedd Mai a Mehefin 2020 yn arbennig o anodd ac yn ystod y cyfnod hwn sylwyd ar godiad sylweddol o achosion Covid-19 a chyfradd uchel o farwolaethau yn DRC’.

Ers diwedd Mehefin 2020 hyd heddiw, Awst 13, 2020, gwelodd DRC godiad mewn cyfraddau gwellhad a gostyngiad o farwolaethau. Gall hyn fod oherwydd gwell ymateb ac agwedd at ofal. Y mae'r tîm ymateb i Covid-19 yn elwa o'r strategaethau a roddwyd mewn lle , gyda sylw arbennig i ‘gadw'n llym at fesurau atal.’

Y mae rhifau cyfredol, o heddiw, yn dangos bod, yn DRC, 9,589 o achosion wedi eu cadarnhau, gyda 8,480 o bobl wedi gwella a 234 wedi marw. Y mae hyn yn arwain at rif cyfredol o achosion coronafeirws yn y DRC yn 875. Y mae tua 8,000 o'r achosion yn Kinshasa, prifddinas DRC a'r gweddill wedi eu gwasgaru ymysg 17 o 26 o daleithiau.



Y mae yn Nhalaithe South Kivu, ble y mae ein hesgobaeth Bukavu, heddiw, 295 o achosion, gyda 44 o bobl wedi marw a tua 238 wedi gwella. Y mae hyn yn awgrymu bod yn Nhalaithe South Kivu o hyd 13 o achosion.

Bydd bywyd normal yn dychwelyd gan bwyll o Awst 15, 2020, gan gynnwys ail-agor eglwysi, meysydd awyr a phorthladdoedd.

Am y twymyn gwaedliful, Ebola, cyhoeddodd Mudiad Iechyd y Byd a Llywodraeth DRC, ym Mehefin 2020, bod y wlad yn rhydd o'r achosion Ebola diweddar, ond nid cyn i 2,273 o bobl farw o'i herwydd yn ardal ddwyreiniol ein gwlad. Yn anffodus, bu cychwyniad arall yn ardal orllewinol DRC, yn enwedig yn yr ardal Equator, ar ddechrau Gorffennaf 2020, gyda o leia 74 o farwolaethau wedi eu nodi, (70 wedi eu cadarnhau a 4 posib). Hyd yn hyn bu 32 o farwolaethau a 28 wedi gwella o'r 11fed achos o Ebola yn Mbandaka, Talaith Equator.